# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mawrth, 17 Tachwedd 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
A. Nicholas, Swyddog Adfywio Gwledig;
C. Owen, Swyddog Biwro;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod:** 3.00 yp - 3.30 yp

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

| Enw | Rhif(au) y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd E Dole | **Cofnod Rhif 6 -** Cronfa Arloesi Arfor - Ynni Da | Mae'r ymgeisydd yn aelod o'r un grŵp gwleidyddol ar y Cyngor |

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 15FED HYDREF 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Hydref 2020, gan ei fod yn gywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.**

| Cronfa'r Degwm | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Sgiliau Adeiladu Cyfle Cyf. | £3,750.00 |

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

**5. BWRSARIAETH ARFOR - LLWYDDO'N LLEOL SIR GÂR**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr**

**adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth gan Fwrsariaeth ARFOR - Llwyddo'n Lleol Sir Gâr.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth gan Fwrsariaeth ARFOR - Llwyddo'n Lleol Sir Gâr yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Bwrsariaeth ARFOR - Llwyddo'n Lleol Sir Gâr** | | |
|---|---|---|
| **Cyf. Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| AB2-01 | GP Architecture Studio | £1,000.00 |

## 6. CRONFA ARLOESI ARFOR

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth o Gronfa Arloesi ARFOR.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Arloesi ARFOR yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Cronfa Arloesi ARFOR | | |
|---|---|---|
| **Cyf. Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| AG5-02 | 2104 Fashion | £2,204.26 |
| AG5-03 | Ecology Planning | £5,000.00 |
| AG5-04 | Wright’s Independent Foods Ltd. | £2,690.99 |

**SYLWER:**
Oherwydd bod y Cynghorydd Dole wedi datgan buddiant yn y cais canlynol byddai'n cael ei gyfeirio at y Bwrdd Gweithredol i'w aelodau ei ystyried.

| Cyf. Cais | Yr Ymgeisydd |
|---|---|
| AG5-01 | Ynni Da |

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**